

# Haearn a Thân

## Llawlyfr Athrawon

Defnyddio ffynonellau hanesyddol yn y dosbarth i ddod â'r Oes Haearn yn fyw heddiw

Claire Heeley

Cadw



# Cynnwys


Rhagymadrodd 3

**Cam Cynnydd 1**

Defnyddio ffynonellau gwreiddiol i ddechrau cwestiynu 4

Defnyddio ffynonellau eilaidd i ateb cwestiynau 6

Llunio casgliadau 9

Cyflwyno canfyddiadau 10

**Cam Cynnydd 2**

Defnyddio ffynonellau gwreiddiol i ddechrau cwestiynu 12

Defnyddio ffynonellau eilaidd i ateb cwestiynau 14

Llunio casgliadau 16

Cyflwyno canfyddiadau 17

**Cam Cynnydd 3**

Defnyddio ffynonellau gwreiddiol i ddechrau cwestiynu 18

Defnyddio ffynonellau eilaidd i ateb cwestiynau 20

Llunio casgliadau 23

Cyflwyno canfyddiadau 24

Rhestr Termau i Athrawon 29




# Rhagymadrodd

Croeso i ddechrau eich taith i ddysgu am Geltiaid yr Oes Haearn. MI gafodd y llawlyfr hwn ei hysgrifennu i ddefnyddio ffynonellau hanesyddol gwreiddiol ac eilaidd - rhai a darddodd ar y pryd (ffynonellau gwreiddiol) a rhai sydd wedi'u creu neu eu darparu ar sail y ffynonellau gwreiddiol hynny ac sydd felly un cam wedi'u tynnu o'r amser gwreiddiol a lle (ffynonellau eilaidd).

Mae pob tasg yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau llafaredd a chyfathrebu mewn cyd-destunau amrywiol megis cyfoedion i gyfoedion, unigol i ddosbarth, cyd-drafod mewn grwpiau bach, a chyflwyniad i gynulleidfa. Mae'r sgiliau yma wedi eu nodi fel rhan o'r Llawlyfr Athrawon gan ddefnyddio eiconau, ond gellir eu gweld hefyd yn fwy manwl ar daenlen cynnydd y cwricwlwm, sydd i'w chael o hafan y grŵp hwn o adnoddau.

Lle bynnag y bo modd, mae tasgau'r llawlyfr wedi'u hysgrifennu i fod yn ddigon hyblyg i'ch galluogi i weithio gyda grwpiau o bob maint, ac i alluogi dysgwyr i weithio'n annibynnol hefyd. Er efallai y byddwch eisiau argraffu rhai elfennau o'r adnoddau cysylltiedig, mae'r llawlyfr hwn wedi'i ysgrifennu fel bod modd cyrchu pob elfen o'r gwaith ar-lein, a'r unig bethau y byddai angen i chi eu darparu yw eitemau arferol o offer dosbarth. Nid oes unrhyw ofyniad amser nac argymhelliad ar gyfer unrhyw un o'r tasgau hyn gan fod yr hyblygrwydd hwn yn rhan o'ch dewis fel ymarferwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes bwriad i hyn ffitio i mewn i 4 sesiwn o awr yr un, a bydd yn cymryd llawer mwy na 4 awr i gyflenwi'n gyfan gwbl.

Mae'r 3 Cham Cynnydd hefyd wedi'u hysgrifennu fel bod ysgol gyfan yn gallu gweithio ar y tasgau ar yr un pryd. Fodd bynnag, gan fod canlyniadau gwahanol iawn ar gyfer pob Cam byddai cyflwyniadau gwahanol iawn ar y diwedd, felly basai pawb yn yr ysgol yn gallu mwynhau profi'r cyflwyniadau hyn, hyd yn oed pe baent hwy eu hunain wedi cwblhau'r tasgau ymchwilio ar lefel arall.

Mae yna hefyd adnoddau eraill ar gael i'ch helpu i gyrraedd y pwnc hwn, gan gynnwys geirfaoedd i ddysgwyr ac oedolion, ac ymadroddion Cymraeg ystafell ddosbarth i ddysgwyr ac oedolion gyda geirfa sy'n benodol i'r pwnc ac yr ystafell ddosbarth.

Rydw i'n gobeithio y byddwch yn mwynhau eich amser darganfod ynghyd â'ch dysgwyr, a'i fod yn eich galluogi i gael y gorau o'ch amser gyda nhw tra hefyd yn eich cynorthwyo i gyflawni gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Newydd Cymru.



# Defnyddio ffynonellau gwreiddiol i ddechrau cwestiynu

Darparwch luniau o ddarganfyddiadau Llyn Cerrig Bach heb unrhyw gyflwyniad mewn grwpiau neu i'r dosbarth cyfan. Trafodwch y lluniau yn y grŵp, gan annog y dysgwyr i edrych yn ofalus ar y lluniau a defnyddio ansoddeiriau i roi pennawd i'w harsylwadau e.e. wedi torri, llanast, hen. Fel grŵp neu ddosbarth, defnyddiwch eu harsylwadau fel sail i greu cwestiynau Pwy - Beth - Pryd - Ble - Pam - Sut am y gwrthrychau yn y lluniau a chofnodwch y rhain fel y bo'n briodol e.e. PostIts / Padlet / byrddau gwyn / llyfrau / recordiadau sain neu fideo.

Os yw'ch grŵp yn cael trafferth dod o hyd i gwestiynau, ceisiwch ofyn rhai eich hun fel:

- O beth allai'r rhain fod yn luniau?
- Pa bethau sydd yr un peth ym mhob llun?
- Pam mae'r gwrthrychau wedi'u cadw?
- Beth sy'n arbennig am y gwrthrychau?
- Pam nad yw'r gwrthrychau'n sgleiniog?
- O ble y gallai'r gwrthrychau fod wedi dod?

Adolygwch y cwestiynau hyn gyda'r dosbarth a gofynnwch a oes gan unrhyw un syniadau am atebion. Anodwch atebion posibl gyda'r cwestiynau i gadw'r wybodaeth yn gysylltiedig.

Oes unrhyw un o fewn y grŵp sy'n medru ateb unrhyw un o'r cwestiynau? Efallai bod rhai dysgwyr wedi gweld y rhain neu ddarganfyddiadau tebyg, wedi ymweld â safleoedd cysylltiedig, neu fod â diddordeb yn y pwnc ac yn 'arbenigwr' dosbarth yn barod.



Gan ddefnyddio'r drafodaeth sydd wedi digwydd, gofynnwch i'r dysgwyr ddod i gasgliad posibl ynglŷn â beth allai'r gwrthrychau fod. Gellid gwneud hyn mewn grwpiau neu fel dosbarth cyfan yn dibynnu ar y garfan a'u hanghenion. Ar ddiwedd y drafodaeth a oes unrhyw gwestiynau neu gysyniadau sy'n amlwg heb eu hateb am y lluniau? Gwnewch yn siŵr bod y rhain yn cael eu gwneud yn amlwg i'ch dysgwyr gan mai dyma fydd sail eu hymchwiliad, a chofiwch gyfeirio'n ôl atynt trwy gydol y gwaith i weld os a phryd y deuir o hyd i atebion. Efallai y byddwch am gynnwys y rhain mewn wal weithio neu ddull arall o arddangos y gwaith yn dibynnu ar eich carfan a gofod yr ystafell ddosbarth. Gwnewch yr un peth gydag atebion sydd eisoes wedi'u rhoi, oherwydd efallai y bydd angen i'r rhain newid wrth i chi ddysgu mwy. Mae hyn yn aml yn digwydd gyda chanfyddiadau hanesyddol - po fwyaf o dystiolaeth sy'n ymddangos, y mwyaf o gyd-destun a geir ar gyfer gosod darganfyddiad, ac felly mwyaf cywir y daw'r casgliadau.

Darllenwch gomig Llyn Cerrig Bach. Gellir gwneud hyn fel darlleniad dan arweiniad i'r rhai sy'n gallu darllen gyda chymorth, ond gellid ei wneud hefyd fel darlleniad wedi'i fodelu[1] ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu darllen eto.

Ydy'r comig hwn yn ateb unrhyw un o'r cwestiynau sydd heb eu hateb o hyd? A yw'n newid barn y dysgwyr am unrhyw un o'r atebion rydych chi wedi'u cynnig yn barod?

Parhewch i gwestiynu'r ffynhonnell:

- Cafodd y comig hwn ei hysgrifennu ar yr un pryd ag yr oedd y darganfyddiadau'n cael eu defnyddio?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- A yw hynny'n golygu ei fod yn fwy/llai tebygol o fod yn gwbl gywir?
- Ydy hon yn ffynhonnell ddibynadwy?

Ble mae hyn yn eich gadael chi a'r dysgwyr cyn belled ag y mae cwestiynau ac atebion yn mynd? Cofiwch barhau i adolygu'r cwestiynau a godwyd ar y dechrau. Mae'n bwysig cyfeirio'n ôl at y ffynhonnell wreiddiol a'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod yn dal i chwilio am y wybodaeth gywir, a'ch bod yn gwybod ble mae angen i chi fynd nesaf. Mae hefyd yn eich helpu i weld y pethau rydych chi'n hyderus eich bod chi'n iawn ynddynt gan fod hyn yn eich helpu i adeiladu'r haenau o'ch dealltwriaeth o'r ffynonellau.

[1] Mae darllen dan arweiniad yn defnyddio'r sgiliau darllen sydd gan y dysgwyr ac yn eu rhoi yng nghyd-destun darllen y comig hwn, tra bod darllen wedi'i fodelu yn defnyddio'r comig a'r darluniau fel sail, ac yn trafod y wybodaeth a gyfathrebir yn y darluniau yn gyntaf, yna'n datblygu hyn trwy gael yr oedolyn yn darllen y geiriau'n uchel tra bod y dysgwyr yn dilyn trwy'r darluniau.



# Defnyddio ffynonellau eilaidd i ateb cwestiynau

Hyd at hyn rydym wedi defnyddio ffynonellau gwreiddiol yn bennaf - y lluniau (tystiolaeth sydd wedi dod yn uniongyrchol o'r digwyddiad gwreiddiol) ac un ffynhonnell eilaidd - y comig (tystiolaeth sydd wedi'i ddehongli gan rywun, fel arfer ar gyfnod amser gwahanol, ond yn seiliedig yn uniongyrchol ar y ffynhonnell gynradd). Nawr rydyn ni'n mynd i ddechrau edrych yn fwy ar ffynonellau eilaidd, ond yn gyntaf mae'n bwysig ailadrodd yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu hyd yn hyn.

Edrychwch ar y lluniau o'r darganfyddiadau a welsoch ar ddechrau'r daith hon. Rydych chi'n gwybod bellach mai arteffactau o'r Oes Haearn ydyn nhw, ond ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr ni fydd hyn yn golygu llawer o ran ei le o fewn hanes y bydysawd.

Bydd y cysyniad o hanes fel continwwm amser yn anodd iawn i rai dysgwyr ei ddeall gan mai dim ond gwir fodolaeth y presennol y maent yn ei ddeall yn iawn. Fodd bynnag, efallai eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau hanesyddol, megis bodolaeth dinosoriaid neu fod eu teidiau a'u neiniau'n blant. Er mwyn dechrau sefydlu ymwybyddiaeth o amser mae yna fantais bendant i greu llinell amser sy'n defnyddio lleoliad gwrthrych cymharol[2] wrth ei wraidd. Er mwyn gwneud y llinell amser yn berthnasol mae'n bwysig defnyddio digwyddiadau hanesyddol sy'n gyfarwydd i'r dysgwyr. Os ydyn nhw'n gwybod bod rhywun wedi glanio ar y lleuad, yna cynhwyswch hynny. Os nad ydyn nhw erioed wedi clywed am y Rhufeiniaid, peidiwch â chynnwys hynny. Yr her i chi fel ymarferwr yn y cyd-destun hwn yw penderfynu beth sy'n berthnasol a beth nad yw'n berthnasol. I sefydlu hyn gallech ddefnyddio llinellau amser hanesyddol a baratowyd gan eraill sy'n darlunio digwyddiadau hanesyddol penodol, yna dewiswch o'r rhain gyda'ch dysgwyr sy'n berthnasol iddynt. Gallwch ddewis gofyn i'r dysgwyr am ddigwyddiadau hanesyddol i'w cynnwys. Daw hyn yn bwysicach os bu digwyddiadau hanesyddol lleol arwyddocaol megis dathliad canmlwyddiant ysgol, ffatri neu agoriad/cau pwll neu ddyfais, cyflawniad neu drasiedi a nodir yn lleol.

Unwaith y byddwch wedi creu eich llinell amser, rhowch yr Oes Haearn yn y cyd-destun hwn. Cofiwch fod rhai digwyddiadau hanesyddol yn gymharol fyr, tra bod eraill wedi para am filoedd o flynyddoedd, a dod o hyd i ffordd i ddangos rhychwant yn ogystal â threfn megis hydoedd rhuban neu bapur i ddynodi hyd.

[2]Yn syml, mae lleoliad gwrthrych cymharol yn y cyd-destun hwn yn golygu bod digwyddiadau a ddigwyddodd amser maith yn ôl yn llawer pellach i ffwrdd na'r rhai a ddigwyddodd mewn hanes diweddar.





Unwaith y bydd y dysgwyr yn ymwybodol o / gyfforddus efo / hapus efo'r cysyniad o hanes yn mynd yn ôl ymhell, a bod yr Oes Haearn amser maith yn ôl, ond hefyd wedi para am amser hir, yna mae'n amser edrych yn ôl ar yr arteffactau eto.

Atgoffwch y dysgwyr o'r gwahaniaeth rhwng ffynonellau gwreiddiol a ffynonellau eilaidd, ac nad yw pob ffynhonnell yn hollol gywir. Mae ychydig fel dweud eich fersiwn chi o rywbeth a ddigwyddodd ar y maes chwarae, yna'r person hwnnw'n dweud eich stori wrth rywun arall - nid yw bob amser fel y gwelsoch chi'n digwydd, a pho fwyaf o weithiau mae'r stori'n cael ei throsglwyddo, y lleiaf cywir bydd hi yn y pen draw.
Adolygwch syniadau'r dysgwyr am yr arteffactau maen nhw wedi'u gweld hyd yn hyn, a gofynnwch i'r dysgwyr ddechrau meddwl am beth gall yr arteffactau hyn ei ddweud wrthym:

- am fywyd yn yr Oes Haearn
- am y bobl oedd yn byw yno ar y pryd

Trafodwch sut y gallwn ddod i gasgliadau ar sail yr arteffactau. A oedd cleddyfau yn rhan o'r arteffactau? Pam y gallai fod eu hangen? Pwy allai fod wedi eu defnyddio? Pwy allai fod wedi eu gwneud? Felly, ar sail yr ateb i'r cwestiynau hyn, beth allwch chi ei ddweud am fywyd yn yr Oes Haearn a'r bobl oedd yn byw yno?

Crëwch gasgliad o ddatganiadau yn seiliedig ar eich casgliadau. Fel gyda'r cwestiynau, gellir cofnodi'r rhain mewn unrhyw ffordd sy'n gweithio i'ch dysgwyr.

Unwaith y bydd y casgliadau hyn wedi'u harchwilio, trafodwch yr hyn na allwn ei ddweud o'r arteffactau hyn. Gallwn ni weld y tai roedden nhw'n byw ynddynt? Gallwn ni weld lle cafodd eu tai eu hadeiladu? Gallwn ni weld eu dillad? Gallwn ni weld eu bwyd? Yn fyr, er bod gennym lawer o wybodaeth hyd yn hyn, nid oes gennym ddigon i greu darlun o fywyd yn yr Oes Haearn nac i ateb y cwestiynau sydd dal gennym, ac felly mae angen i ni edrych ar ffynonellau eraill.

Nawr mae'n bryd dechrau edrych ar y ffynonellau eilaidd am wybodaeth. Mae yna 4 taflen ffeithiau, wedi'u gwahaniaethu mewn tair ffordd, pob un yn edrych ar hanes yr Oes Haearn, ond pob un mewn ffordd ychydig yn wahanol.

Mae Esgyrn a Cherrig yn edrych ar yr amser a ddosberthir fel 'cynhanes', sef y cyfnod cyn i'r Rhufeiniaid ymgartrefu ym Mhrydain.
Mae Map Hanes Cymru yn dangos ble yng Nghymru mae safleoedd cynhanesyddol, a'r math o safleoedd ydyn nhw.
Mae Bryngaer Coed Llanmelin yn adrodd hanes cloddio bryngaer.
Mae Bryngaerau: Uchod ac Isod yn esbonio sut mae'r tir yn dweud wrthym beth sydd wedi'i guddio o dan yr wyneb a'r cliwiau i chwilio amdanynt.

Ar gyfer mwyafrif y dysgwyr yn y Cam Cynnydd hwn, byddant yn cyrchu'r daflen CC1, gyda chymorth yn ôl pob tebyg. Peidiwch â diystyru perthnasedd y lluniau a'r darluniau ar y ddalen, fel cefnogaeth i'r geiriau, ond hefyd fel gwybodaeth yn eu rhinwedd eu hunain. Dyma rai awgrymiadau ar sut i sgaffaldio'r broses hon ac i ddarparu gwahaniaethiad:

| | Un pwynt ffocws | 2-3 pwynt ffocws | 4+ pwynt ffocws |
|---|---|---|---|
| Ffynonellau darllen CC1 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu | Adalw sawl ffaith o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu |
| Ffynonellau darllen CC2 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol | Adalw sawl ffaith o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol |
| Ffynonellau darllen CC3 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol | Adalw sawl ffaith o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol |

Unwaith y bydd y ffynonellau hyn wedi'u harchwilio, gellir coladu'r wybodaeth a gasglwyd. Mae hyn yn addas ar gyfer gwaith cyflwyno ar raddfa fach, gyda phob grŵp yn dod â'r wybodaeth y maent wedi dod o hyd iddi i grŵp arall neu i'r dosbarth, a'r canfyddiadau cyfunol wedyn yn cael eu hystyried fel un cyfanwaith. Dyma ddechrau siarad cyhoeddus hefyd, hyd yn oed os mai dim ond un gair sy'n cael ei siarad yn glywadwy wrth y gynulleidfa honno.

O hyn, gallwch wedyn ofyn y cwestiwn 'pa wybodaeth newydd sydd gennym yn awr?' O'r pwynt hwnnw, cewch eich arwain wedyn i ofyn 'pa wybodaeth sydd ar goll o hyd?'

Gwnewch restr o'r bylchau sydd yn eu dealltwriaeth o Geltiaid yr Oes Haearn. Trafod beth y gellid ei wneud yn awr i lenwi'r bylchau hynny, oherwydd maent bellach wedi edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Beth maen nhw'n meddwl y basai haneswyr eraill o'u blaenau fod wedi'i wneud i lenwi'r bylchau?

Cyflwyno'r cysyniad o ddyfaliad gwybodus. Dyma le dyfalir ar sail tystiolaeth ddibynadwy a chywir i bontio'r bylchau rhwng y dystiolaeth. Er enghraifft mi gafodd genfa ceffyl ddarganfod yn Llyn Cerrig Bach, felly gallwn ddyfalu bod ganddynt geffylau. Roedd llafnau pladur, ond dim handlenni, felly gallwn ddyfalu bod yr handlenni wedi'u gwneud allan o rywbeth fel pren sydd wedi pydru dros amser, a bod y pladuriau'n cael eu defnyddio i dorri cnydau â choesynnau hir, fel gwenith, ceirch neu haidd.



# Llunio casgliadau

Drwy gydol y sesiynau blaenorol, mae'r dysgwyr wedi casglu llawer iawn o wybodaeth am Geltiaid yr Oes Haearn. Nawr yw'r amser i ddod â hyn at ei gilydd! Mae sut rydych chi'n gwneud hyn yn dibynnu ar eich dysgwyr a beth sy'n gweithio i chi, ond dyma rai awgrymiadau:

- Map meddwl dosbarth darluniadol o'r wybodaeth
- Bwrdd padlet dosbarth i ddangos y wybodaeth
- Gwaith unigol fel diagramau corryn neu ddarluniau
- Wal wybodaeth gydweithredol lle mae pawb yn cyfrannu darnau o wybodaeth ysgrifenedig neu ddarluniadol i ofod gweladwy anferth

Yn seiliedig ar y casgliad hwn o wybodaeth, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r dysgwyr eu hystyried:

- Pwy oedd yn byw yn yr Oes Haearn?
- Beth wnaethon nhw?
- Sut beth oedd bywyd bob dydd?
- Pryd oedden nhw'n byw mewn hanes?
- Ble dewison nhw fyw?
- Pam dewison nhw fyw yno?
- Beth oedden nhw'n byw ynddo?
- Gyda phwy roedden nhw'n byw?
- Beth wnaethon nhw â'u dyddiau?
- Sut cawsant yr hyn yr oedd ei angen arnynt?

Gofynnwch i'r dysgwyr ffurfio atebion i un neu fwy o'r cwestiynau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth y maent wedi'i darganfod trwy eu hymchwiliadau hanesyddol. Efallai na fydd ganddynt atebion cyflawn i'r cwestiynau, ond dylai'r cyfuniad o wybodaeth gywir a dibynadwy o'r ffynonellau cynradd ac eilaidd a'u barn eu hunain ganiatáu iddynt lunio atebion credadwy. Bydd gan eich dysgwyr lawer o wybodaeth nawr, ac felly mae'n bryd gwneud rhywbeth gyda'r wybodaeth honno.

# Cyflwyno canfyddiadau

Pan fydd haneswyr wedi darganfod rhywbeth, dydyn nhw ddim yn cadw'r wybodaeth iddyn nhw eu hunain. Maen nhw eisiau rhannu'r wybodaeth gyda phobl eraill. Mae'r un peth yn wir am eich dysgwyr. Bellach mae ganddyn nhw gyfoeth o wybodaeth am Geltiaid yr Oes Haearn ac mae'n bryd iddyn nhw rannu'r wybodaeth honno.

Hyd yn hyn, nid yw dysgwyr ar y cam hwn o'u taith addysg wedi cael llawer o brofiad o sut i gyflwyno canfyddiadau, ac oherwydd hyn rydyn ni'n mynd i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddyn nhw i sgaffaldio'r cysyniadau newydd o rannu gwybodaeth i gynulleidfa. Mae bron yn sicr y bydd dysgwyr yn gyfarwydd â chwarae rôl, chwarae byd bach ac adrodd straeon, a'r sgiliau cyfarwydd hyn sy'n mynd i gael eu cyfuno i greu eu cyflwyniad.

Yr amcan yw creu pentref Celtaidd Oes yr Haearn yn null chwarae byd bach. Gall hyn ddefnyddio beth bynnag sydd gennych yn eich ystafell ddosbarth yn barod, fel Lego, Playmobil, Brio, Tuff Trays, a mannau chwarae awyr agored, ond bydd eu hangen hefyd i greu rhai elfennau megis pobl ac adeiladau. Er y gall rhai o'r rhain gael eu hailosod o wrthrychau sy'n bodoli eisoes, nid yw dillad ac adeiladau Celtaidd yn rhywbeth a geir fel arfer mewn eitemau chwarae modern! Dyma rai awgrymiadau ar sut i greu eitemau ar gyfer eich pentref Celtaidd o Oes yr Haearn:

- Gwnewch gymeriadau allan o begiau pren. Paentiwch neu tynnwch lun wynebau, gwallt, hyd yn oed paent rhyfel glaslys! Gwisgwch nhw gyda darnau o ffabrig neu bapur.
- Crëwch anifeiliaid o lanhawyr pibellau. Mae'r rhain yn arbennig o dda i wneud defaid.
- Crëwch anifeiliaid o does neu glai chwarae. Mae hyn yn well ar gyfer anifeiliaid trymach a llai fel moch.
- Gwnewch dai crwn gan ddefnyddio cardbord. Gellir defnyddio cerdyn rhychiog ar gyfer gwead, yn enwedig ar gyfer waliau pren. Addurnwch nhw gyda phaent, neu byddwch yn greadigol gyda gwellt a brigau.
- Crëwch dirwedd gan ddefnyddio papur wedi'i wasgu a thâp papur. Yna gellir lliwio hwn gyda phaent neu drwy ludo papur lliw ar y twmpathau. Beth am ychwanegu nant? Neu greigiau? A oes angen unrhyw beth arall yn y dirwedd? Anogwch eich dysgwyr i feddwl am le diogel i roi eu pentref fel y gallent weld unrhyw elynion yn dod yn hawdd.
- Gwnewch goed gan ddefnyddio sawl glanhawr pibell wedi'u troelli at ei gilydd i ffurfio boncyffion, yna gludwch beli papur ar bennau'r canghennau fel dail. Neu eu gadael yn foel a honni ei fod yn aeaf.
- Oes angen neuadd ar eich pentref? Gwnewch fersiwn fwy o'r tai lle gall llawer o'ch 'pobl' ffitio i mewn ar unwaith.
- Roedd tân yn bwysig iawn ar yr adeg hon ar gyfer pob math o bethau fel coginio a thoddi haearn. Defnyddiwch frigau bach i greu pydew tân bach a phapur lliw i wneud y fflamau.
- Beth am ffens derfyn? Gellid gwneud hyn trwy dorri llawer o wellt i'r un hyd a'u glynu at ei gilydd gan ddefnyddio stribedi papur neu dâp papur i wneud ffens enfawr.

Bydd y broses o greu'r pentref model ynddo'i hun yn annog sgwrsio, cydweithio ac mae'n debyg cryn dipyn o drafod. Fodd bynnag, mae'r holl gyfathrebu amrywiol hyd yma wedi bod ar lefel cyfoedion i gyfoedion neu blentyn i athro, ac ar ben hynny i eraill sydd hefyd yn deall y pwnc sy'n cael ei drafod. Bydd y cam nesaf yn mynd â'ch dysgwyr i gyfathrebu â phobl y tu allan i'r grŵp cyfoedion a'u hoedolion cefnogol.

Unwaith y bydd y pentref wedi'i greu, rhowch rolau i'r dysgwyr eu hesbonio i eraill. Gall hyn fod mewn grwpiau bach neu fel unigolion, yn dibynnu ar eich carfan a'u hanghenion a'u galluoedd. Bydd pob rôl yn gyfrifol am egluro ardal neu berson o fewn y pentref. Bydd angen iddynt allu adrodd hanes yr agwedd honno ar fywyd Celtaidd yr Oes Haearn a gobeithio ateb rhai cwestiynau syml. Gellir paratoi hwn mewn ffyrdd amrywiol, yn dibynnu ar sut rydych wedi trefnu eich dysgwyr, ond mae'n bwysig eu bod yn gallu cyfathrebu eu gwybodaeth ar lafar ac mor annibynnol â phosibl.

Pan fydd y cam hwn yn ddiogel, mae'n bryd cyflwyno cynulleidfa. Yn dibynnu ar eich ysgol a'ch dysgwyr gall hwn fod yn ddosbarth arall o'r tu fewn i'r ysgol sy'n dod i mewn i'ch 'arddangosfa' ar gyfer eich 'arbenigwyr' i roi taith iddynt o amgylch y pentref a'i bobl. Gall fod yn briodol agor y cyfle i rieni a gwarcheidwaid, llywodraethwyr yr ysgol neu hyd yn oed i'r ardal leol yn dibynnu ar y cysylltiadau cymunedol sydd ar gael ichi.

Yna gall eich dysgwyr adrodd stori'r bobl yn eu pentref, eu swyddi, eu teulu, pam eu bod yn bwysig, pam yr adeiladwyd y pentref lle'r oedd, sut y cafodd ei adeiladu, gan bwy y'i hadeiladwyd, deinameg y bobl o fewn y pentref, y newidiadau sydd wedi digwydd ers adeiladu'r pentref a'r bygythiadau i'r pentref. Gallant adrodd hanesion am ddefodau crefyddol, y flwyddyn naturiol gan gynnwys plannu, tyfu a chynaeafu, sut mae'r tymhorau'n effeithio arnynt, sut maent yn cadw golwg ar y dyddiau gan ddefnyddio lleoliad yr haul a'r misoedd gan ddefnyddio cyfnodau'r lleuad. Ac wrth wneud hyn gallant gyfleu eu bod bellach yn arbenigwyr yn eu maes o fywyd pentref Celtaidd Oes Haearn.



# Defnyddio ffynonellau gwreiddiol i ddechrau cwestiynu

Darparwch luniau o ganfyddiadau Llyn Cerrig Bach heb unrhyw gyflwyniad (mewn grwpiau neu i'r dosbarth cyfan). Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am gwestiynau Pwy - Beth - Pryd - Ble - Pam - Sut i'w gofyn am y gwrthrychau yn y lluniau - ysgrifennu ar PostIts / Padlet / byrddau gwyn / llyfrau / recordiadau sain pan nad yw'n bosibl ysgrifennu.

Os yw'ch grŵp yn cael trafferth dod o hyd i gwestiynau, ceisiwch ofyn rhai eich hun fel:

- Beth allan nhw fod?
- Beth sy'n eu cysylltu?
- Pam maen nhw wedi cael eu cadw?
- Beth sy'n arbennig amdanyn nhw?
- Pam nad ydyn nhw'n sgleiniog?
- O ble y gallent fod wedi dod?

Rhannwch y cwestiynau hyn gyda'r dosbarth a gofynnwch a oes gan unrhyw un syniadau am atebion. Anodwch atebion posibl ar neu gyda'r cwestiynau i gadw'r wybodaeth yn gysylltiedig.

Oes unrhyw un o fewn y grŵp sy'n medru ateb unrhyw un o'r cwestiynau? Efallai bod rhai dysgwyr wedi gweld y rhain neu ddarganfyddiadau tebyg, wedi ymweld â safleoedd cysylltiedig, neu fod â diddordeb yn y pwnc ac wedi bod yn 'arbenigwr' dosbarth yn barod.

Gan ddefnyddio'r drafodaeth sydd wedi digwydd, gofynnwch i'r dysgwyr ddod i gasgliad posibl ynglŷn â beth allai'r gwrthrychau fod.

A oes ganddynt unrhyw gwestiynau heb eu hateb am y lluniau o hyd? Sicrhewch fod y rhain yn glir, a chyfeiriwch yn ôl atynt trwy gydol y gwaith i weld a fydd atebion yn cael eu canfod a phryd. Gwnewch yr un peth gydag atebion sydd eisoes wedi'u rhoi, oherwydd efallai y bydd angen i'r rhain newid wrth i chi ddysgu mwy. Mae hyn yn aml yn digwydd gyda chanfyddiadau hanesyddol - po fwyaf o dystiolaeth sy'n ymddangos, y mwyaf o gyd-destun a geir ar gyfer gosod darganfyddiad, ac felly mwyaf cywir y daw'r casgliadau.



Darllenwch gomig Llyn Cerrig Bach, naill ai mewn grwpiau neu'n unigol, neu fel dosbarth, fel sy'n briodol i'ch dysgwyr. Ydy'r comig hwn yn ateb unrhyw un o'r cwestiynau sydd heb eu hateb o hyd? A yw'n newid eich barn am unrhyw un o'r atebion rydych chi wedi'u cynnig yn barod?

Parhewch i gwestiynu'r ffynhonnell:

- Cafodd y comig hwn ei hysgrifennu ar yr un pryd ag yr oedd y darganfyddiadau'n cael eu defnyddio?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- A yw hynny'n golygu ei fod yn fwy/llai tebygol o fod yn gwbl gywir?
- Pa ddarnau o'r comig sydd fwyaf tebygol o fod yn gwbl gywir? Crëwyd peth o'r cynnwys trwy adroddiadau uniongyrchol gan y rhai a ddaeth o hyd i'r gwrthrychau, ac felly mae'n ddogfennaeth o ffynhonnell wreiddiol (y person a ddaeth o hyd i'r arteffactau) ac mae bron yn sicr yn gwbl gywir ar y manylion hynny.
- A yw hon yn ffynhonnell ddibynadwy?

Ble mae hyn yn eich gadael cyn belled ag y mae cwestiynau ac atebion yn mynd? Mae'n bwysig cyfeirio'n ôl at y ffynhonnell wreiddiol a'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod yn dal i chwilio am y wybodaeth gywir, a'ch bod yn gwybod ble mae angen i chi fynd nesaf. Mae hefyd yn eich helpu i weld y pethau rydych chi'n hyderus eich bod chi'n iawn ynddynt gan fod hyn yn eich helpu i adeiladu'r haenau o'ch dealltwriaeth o'r ffynonellau.



# Defnyddio ffynonellau eilaidd i ateb cwestiynau

Hyd yn hyn rydym wedi defnyddio ffynonellau gwreiddiol yn bennaf - y lluniau (tystiolaeth sydd wedi dod yn uniongyrchol o'r digwyddiad gwreiddiol) ac un ffynhonnell eilaidd - y comig (tystiolaeth sydd wedi'i ddehongli gan rywun, fel arfer ar gyfnod amser gwahanol, ond yn seiliedig yn uniongyrchol ar y ffynhonnell wreiddiol). Nawr rydyn ni'n mynd i ddechrau edrych yn fwy ar ffynonellau eilaidd, ond yn gyntaf mae bob amser yn dda ailadrodd yr hyn rydyn ni'n ei wybod hyd yn hyn.

Edrychwch ar y lluniau o'r darganfyddiadau a welsoch ar ddechrau'r daith hon. Rydych chi'n gwybod bellach mai arteffactau o'r Oes Haearn ydyn nhw, ond i'r mwyafrif o ddysgwyr ni fydd hyn yn golygu llawer o ran ei le o fewn hanes y bydysawd.
Er mwyn gosod yr Oes Haearn yn ei gyd-destun mewn hanes, mae amryw o opsiynau y gellir eu hystyried, yn dibynnu ar eich carfan a'u gwybodaeth flaenorol:

- Ysgrifennwch amseroedd cyfarwydd mewn hanes ar linell amser post-its neu padlet i greu llinell amser dosbarth, yna ychwanegwch yr Oes Haearn at y fframwaith cyfarwydd hwn.
- Defnyddiwch adnoddau masnachol a baratowyd ymlaen llaw o'ch darganfyddiad eich hun i argraffu llinell amser.
- Defnyddiwch y llinell amser Cadw hon fel amlinelliad o'r cyfnodau amser y gallwn eu gweld yng Nghymru.

Unwaith y bydd y dysgwyr yn hapus â phan ddaeth yr Oes Haearn o fewn hanes, mae'n bryd edrych yn ôl ar yr arteffactau eto. Atgoffwch y dysgwyr o'r gwahaniaeth rhwng ffynonellau gwreiddiol a ffynonellau eilaidd, a gofynnwch iddyn nhw nodi pa un o'r ddwy ffynhonnell maen nhw wedi'i gweld hyd yma sydd fwyaf cywir a pham. Adolygwch eu syniadau am yr arteffactau maen nhw wedi'u gweld hyd yn hyn, a gofynnwch i'r dysgwyr ddechrau meddwl am yr hyn y gall yr arteffactau hyn ei ddweud wrthym:

- m fywyd yn yr Oes Haearn
- am y bobl oedd yn byw yno ar y pryd

Trafodwch sut y gallwn ddod i gasgliadau ar sail yr arteffactau. A oedd cleddyfau yn rhan o'r arteffactau? Pam roedd eu hangen? Pwy fyddai wedi eu defnyddio? Pwy fyddai wedi eu gwneud? Sut byddent wedi eu gwneud? Felly, ar sail yr ateb i'r cwestiynau hyn, beth allwch chi ei ddweud am fywyd yn Oes yr Haearn a'r bobl oedd yn byw yno? Crëwch gasgliad o ddatganiadau yn seiliedig ar y casgliadau y daethpwyd iddynt wrth edrych ar yr arteffactau hyn. Unwaith y bydd y casgliadau hyn wedi'u harchwilio, trafodwch yr hyn na allwn ei ddweud o'r arteffactau hyn. Gallwn ni weld y tai roedden nhw'n byw ynddynt? Gallwn ni weld lle cafodd eu tai eu hadeiladu? Gallwn ni weld eu dillad? Gallwn ni weld eu bwyd?

Yn fyr, er bod gennym lawer o wybodaeth hyd yn hyn, nid oes gennym ddigon i adeiladu darlun o fywyd yn yr Oes Haearn nac i ateb y cwestiynau sydd gennym o hyd, ac felly mae angen inni edrych ar ffynonellau eraill. Nawr mae'n bryd dechrau edrych ar y ffynonellau eilaidd am wybodaeth. Mae yna 4 taflen ffeithiau, wedi'u gwahaniaethu mewn tair ffordd, pob un yn edrych ar hanes yr Oes Haearn, ond pob un mewn ffordd ychydig yn wahanol.

Mae Esgyrn a Cherrig yn edrych ar yr amser a ddosberthir fel 'cynhanes', sef y cyfnod cyn i'r Rhufeiniaid ymgartrefu ym Mhrydain.
Mae Map Hanes Cymru yn dangos ble yng Nghymru mae safleoedd cynhanesyddol, a'r math o safleoedd ydyn nhw.
Mae Bryngaer Coed Llanmelin yn adrodd hanes cloddio bryngaer.
Mae Bryngaerau: Uchod ac Isod yn esbonio sut mae'r tir yn dweud wrthym beth sydd wedi'i guddio o dan yr wyneb a'r cliwiau i chwilio amdanynt.

Mae hwn yn gyfle perffaith i'ch dysgwyr ddefnyddio sgiliau darllen bras ddarllen i chwilio am wybodaeth ddiddorol a pherthnasol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhywfaint o help ar eich dysgwyr i wybod beth sy'n cyfrif naill ai'n ddiddorol neu'n berthnasol! Peidiwch â diystyru perthnasedd y lluniau a'r darluniau ar y ddalen, fel cefnogaeth i'r geiriau, ond hefyd fel gwybodaeth yn eu rhinwedd eu hunain. Dyma rai awgrymiadau ar sut i sgaffaldio'r broses hon ac i ddarparu gwahaniaethiad:

| | Un pwynt ffocws | 2-3 pwynt ffocws | 4+ pwynt ffocws |
|---|---|---|---|
| Ffynonellau darllen CC1 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu | Adalw sawl ffaith o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu |
| Ffynonellau darllen CC2 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol | Adalw sawl ffaith o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol |
| Ffynonellau darllen CC3 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol | Adalw sawl ffaith o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol |

Unwaith y bydd y ffynonellau hyn wedi'u harchwilio, gellir coladu'r wybodaeth a gasglwyd. Mae hyn yn addas ar gyfer gwaith cyflwyno ar raddfa fach, gyda phob grŵp yn dod â'r wybodaeth y maent wedi dod o hyd iddi i grŵp arall neu i'r dosbarth, a'r canfyddiadau cyfunol wedyn yn cael eu hystyried fel un cyfanwaith. O hyn, gallwch wedyn ofyn y cwestiwn 'pa wybodaeth newydd sydd gennym yn awr?' O'r pwynt hwnnw, cewch eich arwain wedyn i ofyn 'pa wybodaeth sydd ar goll o hyd?'

Gwnewch restr o'r bylchau sydd yn eu dealltwriaeth o Geltiaid yr Oes Haearn. Trafod beth y gellid ei wneud yn awr i lenwi'r bylchau hynny, oherwydd maent bellach wedi edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Beth maen nhw'n meddwl y basai haneswyr eraill o'u blaenau fod wedi'i wneud i lenwi'r bylchau? Cyflwyno'r cysyniad o ddyfaliad gwybodus. Dyma le dyfalir ar sail tystiolaeth ddibynadwy a chywir i bontio'r bylchau rhwng y dystiolaeth. Er enghraifft mi gafodd genfa ceffyl ddarganfod yn Llyn Cerrig Bach, felly gallwn ddyfalu bod ganddynt geffylau. Roedd llafnau pladur, ond dim handlenni, felly gallwn ddyfalu bod yr handlenni wedi'u gwneud allan o rywbeth fel pren sydd wedi pydru dros amser, a bod y pladuriau'n cael eu defnyddio i dorri cnydau â choesynnau hir, fel gwenith, ceirch neu haidd.

# Llunio casgliadau

Drwy gydol y sesiynau blaenorol, mae'r dysgwyr wedi casglu llawer iawn o wybodaeth am Geltiaid yr Oes Haearn. Nawr yw'r amser i ddod â hyn at ei gilydd! Mae sut rydych chi'n gwneud hyn yn dibynnu ar eich dysgwyr a beth sy'n gweithio i chi, ond dyma rai awgrymiadau:

- Map meddwl dosbarth o wybodaeth
- Bwrdd padlet dosbarth i ddangos y wybodaeth
- Gwaith unigol fel diagramau corryn neu ddarluniau
- Wal wybodaeth gydweithredol lle mae pawb yn cyfrannu darnau o wybodaeth ysgrifenedig neu ddarluniadol i ofod gweladwy anferth

Yn seiliedig ar y casgliad hwn o wybodaeth, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r dysgwyr eu hystyried:

- Pwy oedd yn byw yn yr Oes Haearn?
- Beth wnaethon nhw?
- Sut beth oedd bywyd bob dydd?
- Pryd oedden nhw'n byw mewn hanes?
- Ble dewison nhw fyw?
- Pam dewison nhw fyw yno?
- Beth oedden nhw'n byw ynddo?
- Gyda phwy roedden nhw'n byw?
- Beth wnaethon nhw â'u dyddiau?
- Sut cawsant yr hyn yr oedd ei angen arnynt?

Gofynnwch i'r dysgwyr ffurfio atebion i un neu fwy o'r cwestiynau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth y maent wedi'i darganfod trwy eu hymchwiliadau hanesyddol. Efallai na fydd ganddynt atebion cyflawn i'r cwestiynau, ond dylai'r cyfuniad o wybodaeth gywir a dibynadwy o'r ffynonellau cynradd ac eilaidd a'u barn eu hunain ganiatáu iddynt lunio atebion credadwy. Bydd gan eich dysgwyr lawer o wybodaeth nawr, ac felly mae'n bryd gwneud rhywbeth gyda'r wybodaeth honno.



# Cyflwyno canfyddiadau

Pan fydd haneswyr wedi darganfod rhywbeth, dydyn nhw ddim yn cadw'r wybodaeth iddyn nhw eu hunain. Maen nhw eisiau rhannu'r wybodaeth gyda phobl eraill. Mae'r un peth yn wir am eich dysgwyr. Bellach mae ganddyn nhw gyfoeth o wybodaeth am Geltiaid yr Oes Haearn ac mae'n bryd iddyn nhw rannu'r wybodaeth honno.

Mae eich dysgwyr yn mynd i greu llyfr i blant iau i ddweud wrthynt am fywydau Celtiaid yr Oes Haearn. Rhaid i'r llyfr fod yn ffeithiol ac yn seiliedig ar y wybodaeth y maent wedi'i gweld eisoes oherwydd dyma'r wybodaeth sydd ganddynt yn awr y gallant ei chyflwyno.

Rhaid cael llyfr darluniadol oherwydd ni all dysgwyr iau ddarllen darnau mawr o destun, felly mae'n rhaid i'r darluniau wneud rhywfaint o'r gwaith. Er mwyn i hyn ddigwydd orau, bydd angen i'r dysgwyr ystyried pa wybodaeth y byddai'n well ei dangos ar ffurf llun. Bydd angen iddynt hefyd benderfynu beth sydd angen ei ysgrifennu sy'n anodd ei esbonio heb eiriau. Efallai y bydd angen iddynt ystyried a oes angen gwahanol fathau o luniau arnynt, fel darluniau, mapiau neu ddiagramau.

Mae hwn yn ddarn cydweithredol, ond gall maint y grwpiau hyn gael ei bennu gan eich dysgwyr, ac nid oes angen iddo fod yr un maint ar draws y garfan. Mae gweithio ar y cyd yn golygu bod angen sgiliau cyfathrebu bywyd go iawn o fewn y grŵp i allu creu rhywbeth cydlynol rhyngddynt. Bydd angen iddynt hefyd rannu'r gwaith rhwng y grŵp, ac mae angen iddynt gydnabod nad yw rhannu bob amser yn gyfartal. Bydd angen iddynt gydweithio ar gryfderau'r unigolion o fewn y grŵp ac yna gweithio gyda'r cryfderau hyn i greu'r llyfr gorau y gallant. Os dymunwch, gallech ymestyn y model gweithio ymhellach a sefydlu cwmni cyhoeddi dosbarth, gyda hierarchaeth gyfrifoldeb a disgrifiadau swydd, ceisiadau a chyfweliadau.

Drwy gydol y broses o greu'r llyfr, bydd angen i'r dysgwyr ystyried eu cynulleidfa a gwneud yn siŵr bod eu llyfr yn addas ar gyfer plant iau. Wrth wneud hyn, rhaid i'w hysgrifennu fod yn glir o ran cyflwyniad ac ystyr. Mae hyn yn creu posibiliadau o gynhyrchu'r llyfr yn ddigidol, naill ai fel eitem brintiedig neu fel e-lyfr. Mae'n debyg na fydd gan ddarllenwyr iau'r un eirfa dechnegol â'ch dysgwyr, ac felly efallai y bydd angen rhyw fath o esboniad ar rai geiriau, a bydd angen iddynt ddod o hyd i ffordd o wneud hyn sy'n briodol i'w cynulleidfa.

Yn olaf, dylai eich dysgwyr gyflwyno copi gorffenedig o'u llyfr i ddosbarth arall o ddysgwyr iau i edrych arno a'i ddarllen. Bydd hyn yn gofyn am set wahanol o sgiliau cyfathrebu eto, gan y bydd angen iddynt drefnu amseroedd a lleoliadau addas i wneud hyn trwy gyfathrebu gyda'r oedolion perthnasol mewn dosbarth arall, yna cyflwyno'r llyfr i'r dysgwyr iau, gan gyfathrebu eto gyda chynulleidfa wahanol i egluro pwrpas y llyfr.

# Defnyddio ffynonellau gwreiddiol i ddechrau cwestiynu

Darparwch luniau o ganfyddiadau Llyn Cerrig Bach heb unrhyw gyflwyniadau (mewn grwpiau neu i'r dosbarth cyfan).
Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am gwestiynau Pwy - Beth - Pryd - Ble - Pam - Sut i'w gofyn am y gwrthrychau yn y lluniau - ysgrifennu ar PostIts / Padlet / byrddau gwyn / llyfrau / recordiadau sain pan nad yw'n bosibl ysgrifennu.

Os yw'ch grŵp yn cael trafferth dod o hyd i gwestiynau, ceisiwch ofyn rhai eich hun fel:

- Beth allan nhw fod?
- Beth sy'n eu cysylltu?
- Pam maen nhw wedi cael eu cadw?
- Beth sy'n arbennig amdanyn nhw?
- Pam nad ydyn nhw'n sgleiniog?
- O ble y gallent fod wedi dod?

Rhannwch y cwestiynau torfol gyda'r dosbarth a gofynnwch a oes gan unrhyw un, ar sail y delweddau yn unig, unrhyw syniadau am atebion posibl a chredadwy. Anodwch yr atebion posibl hyn, gan sicrhau bod y cwestiynau a'r atebion yn parhau'n gysylltiedig er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Efallai bod gennych ddysgwyr sydd eisoes wedi gweld y rhain neu rywbeth tebyg yn eich grŵp, wedi ymweld â safleoedd cysylltiedig, neu â diddordeb yn y pwnc ac wedi bod yn 'arbenigwr' dosbarth yn barod. Ydyn nhw'n gallu ychwanegu mwy o fanylion at y drafodaeth ac atebion posibl a ystyriwyd eisoes?

Gan ddefnyddio'r drafodaeth sydd wedi digwydd, gofynnwch i'r dysgwyr ddod i gasgliad posibl ynghylch beth allai'r gwrthrychau fod, gan labelu pob llun o ddarganfyddiad gyda chymaint o wybodaeth ag y gallant ar yr adeg hon. Nid oes gwahaniaeth pa mor gywir yw'r casgliadau hyn ar hyn o bryd, nac os oes mwy nag un casgliad credadwy posibl.

Mae'n debyg y byddwch chi'n darganfod y bydd yna ddosbarthiad anwastad o



syniadau, gyda rhai darganfyddiadau'n cael eu hadnabod yn eithaf hawdd, ac eraill heb ddim yn cael ei gynnig ynglŷn â'u pwrpas. Mae hyn yn gwbl dderbyniol ac i'w ddisgwyl, gan ei fod yn dangos nad yw popeth yn syml, ac mae rhai prosesau ymchwiliol yn cymryd mwy nag un cam.

Unwaith y bydd y labelu wedi'i gwblhau cyn belled ag y bo modd, gwiriwch i weld a oes unrhyw gwestiynau heb eu hateb am y lluniau. Sicrhewch fod y rhain yn glir, a chyfeiriwch yn ôl atynt trwy gydol gweddill yr ymchwiliad i weld a fydd atebion yn cael eu canfod a phryd. Gwnewch yr un peth gydag atebion sydd eisoes wedi'u rhoi, oherwydd efallai y bydd angen i'r rhain newid wrth i chi ddysgu mwy. Mae hyn yn aml yn digwydd gyda chanfyddiadau hanesyddol - po fwyaf o dystiolaeth sy'n ymddangos, y mwyaf o gyd-destun a geir ar gyfer gosod darganfyddiad, ac felly mwyaf cywir y daw'r casgliadau.

Darllenwch gomig Llyn Cerrig Bach, naill ai mewn grwpiau neu yn unigol. Ydy'r comig hwn yn ateb unrhyw un o'r cwestiynau sydd heb eu hateb ar hyn o bryd? A yw'n newid eich barn am unrhyw rai o'r casgliadau yr ydych eisoes wedi dod iddynt?

Parhewch i gwestiynu'r ffynhonnell, yn enwedig ei dibynadwyedd:

- A ysgrifennwyd y comig hwn ar yr un pryd ag yr oedd y darganfyddiadau'n cael eu defnyddio? Sut ydyn ni'n gwybod?
- Ydy hynny'n golygu bod y comig yn fwy/llai tebygol o fod yn gwbl gywir?
- Pa ddarnau o'r comig sydd fwyaf tebygol o fod yn gwbl gywir? Crëwyd peth o'r cynnwys trwy adroddiadau uniongyrchol gan y rhai a ddaeth o hyd i'r gwrthrychau, ac felly mae'n ddogfennaeth o ffynhonnell wreiddiol (y person a ddaeth o hyd i'r arteffactau) ac mae bron yn sicr yn gwbl gywir ar y manylion hynny.
- A yw'r ffynhonnell hon yn debygol o fod yn unochrog?
- A yw hon felly yn ffynhonnell ddibynadwy?

Ble mae hyn yn eich gadael cyn belled ag y mae cwestiynau ac atebion yn mynd? Mae'n bwysig cyfeirio'n ôl at y ffynhonnell wreiddiol a'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu'n rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod yn dal i chwilio am y wybodaeth gywir, a'ch bod yn gwybod ble mae angen i chi fynd nesaf. Mae hefyd yn eich helpu i weld y pethau rydych chi'n hyderus eich bod chi'n iawn ynddynt gan fod hyn yn eich helpu i adeiladu'r haenau o'ch dealltwriaeth o'r ffynonellau.



# Defnyddio ffynonellau eilaidd i ateb cwestiynau

Hyd yn hyn rydym wedi defnyddio ffynonellau gwreiddiol yn bennaf - y lluniau (tystiolaeth sydd wedi dod yn uniongyrchol o'r digwyddiad gwreiddiol) ac un ffynhonnell eilaidd - y comig (tystiolaeth sydd wedi'i ddehongli gan rywun, fel arfer ar gyfnod amser gwahanol, ond yn seiliedig yn uniongyrchol ar y ffynhonnell wreiddiol). Nawr rydyn ni'n mynd i ddechrau edrych yn fwy ar ffynonellau eilaidd, ond yn gyntaf mae bob amser yn dda ailadrodd yr hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod hyd yn hyn.
Edrychwch ar y lluniau o'r darganfyddiadau a welsoch ar ddechrau'r daith hon. Rydych chi'n gwybod bellach mai arteffactau o'r Oes Haearn ydyn nhw, ond i'r mwyafrif o ddysgwyr ni fydd hyn yn golygu llawer o ran ei le o fewn hanes y bydysawd.

Er mwyn gosod yr Oes Haearn yn ei gyd-destun mewn hanes, mae amryw o opsiynau y gellir eu hystyried, yn dibynnu ar eich carfan, eu gwybodaeth flaenorol a'r amser sydd ar gael i chi:

- Ysgrifennwch amseroedd cyfarwydd mewn hanes ar linell amser post-its neu padlet i greu llinell amser dosbarth, yna ychwanegwch yr Oes Haearn at y fframwaith cyfarwydd hwn.
- Defnyddiwch adnoddau masnachol a baratowyd ymlaen llaw o'ch darganfyddiad eich hun i argraffu llinell amser.
- Defnyddiwch y llinell amser Cadw hon fel amlinelliad o'r cyfnodau amser y gallwn eu gweld yng Nghymru.

Unwaith y bydd y dysgwyr yn hapus â phan ddaeth yr Oes Haearn o fewn hanes, mae'n bryd edrych yn ôl ar yr arteffactau eto. Atgoffwch y dysgwyr o'r gwahaniaeth rhwng ffynonellau gwreiddiol a ffynonellau eilaidd, a gofynnwch iddyn nhw nodi pa un o'r ddwy ffynhonnell maen nhw wedi'i gweld hyd yma sy'n debygol o fod y mwyaf cywir a pham.

Adolygwch eu meddyliau am yr arteffactau maen nhw wedi'u gweld hyd yn hyn, a gofynnwch i'r dysgwyr ddechrau meddwl am yr hyn y gall yr arteffactau hyn ei ddweud wrthym:

- am fywyd yn yr Oes Haearn
- am y bobl oedd yn byw yno ar y pryd

Trafodwch sut y gallwn ddod i gasgliadau ar sail yr arteffactau. A oedd cleddyfau yn rhan o'r arteffactau? Pam roedd eu hangen? Pwy fyddai wedi eu defnyddio? Pwy fyddai wedi eu gwneud? Sut byddent wedi eu gwneud? Felly, ar sail yr ateb i'r cwestiynau hyn, beth allwch chi ei ddweud am fywyd yn Oes yr Haearn a'r bobl oedd yn byw yno? Crëwch gasgliad o ddatganiadau yn seiliedig ar y casgliadau y daethpwyd iddynt o edrych ar yr arteffactau hyn a'r trafodaethau dilynol. Unwaith y bydd y casgliadau hyn wedi'u harchwilio, trafodwch yr hyn na allwn ei weithio allan ar unwaith o'r arteffactau hyn. Gawn ni weld y tai roedden nhw'n byw ynddynt? Gawn ni weld eu dillad? Gawn ni weld eu bwyd?

Yn fyr, er bod gennym lawer o wybodaeth hyd yn hyn, nid oes gennym ddigon i adeiladu darlun o fywyd yn yr Oes Haearn nac i ateb y cwestiynau sydd gennym o hyd, ac felly mae angen inni edrych ar ffynonellau eraill.

Os yw'ch dysgwyr yn gyfarwydd â'r cysyniad o siartiau llif, mae hwn yn gyfle da i'w defnyddio mewn cyd-destun ymholiad, gan ddechrau gyda chwestiwn ar y brig, a mynd trwy gyfres o brosesau, gan gynnwys gwirio dilysrwydd pob casgliad posibl, cyn dod at gasgliad terfynol, ac felly creu algorithm.

Nawr mae'n bryd dechrau edrych ar y ffynonellau eilaidd am wybodaeth. Mae yna 4 taflen ffeithiau, wedi'u gwahaniaethu mewn tair ffordd, pob un yn edrych ar hanes yr Oes Haearn, ond pob un mewn ffordd ychydig yn wahanol.
Mae Esgyrn a Cherrig yn edrych ar yr amser a ddosberthir fel 'cynhanes', sef y cyfnod cyn i'r Rhufeiniaid ymgartrefu ym Mhrydain.
Mae Map Hanes Cymru yn dangos ble yng Nghymru mae safleoedd cynhanesyddol, a'r math o safleoedd ydyn nhw.
Mae Bryngaer Coed Llanmelin yn adrodd hanes cloddio bryngaer.
Mae Bryngaerau: Uchod ac Isod yn esbonio sut mae'r tir yn dweud wrthym beth sydd wedi'i guddio o dan yr wyneb a'r cliwiau i chwilio amdanynt.

Mae hwn yn gyfle perffaith i'ch dysgwyr ddefnyddio sgiliau darllen bras ddarllen i chwilio am wybodaeth ddiddorol a pherthnasol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhywfaint o help ar eich dysgwyr i wybod beth sy'n cyfrif naill ai'n ddiddorol neu'n berthnasol! Peidiwch â diystyru perthnasedd y lluniau a'r darluniau ar y ddalen, fel cefnogaeth i'r geiriau, ond hefyd fel gwybodaeth yn eu rhinwedd eu hunain. Chi sydd i benderfynu a yw pob un o'ch dysgwyr yn darllen pob ffynhonnell neu fod y gwaith wedi'i rannu a'r canlyniadau'n cael eu rhannu, ond dyma rai awgrymiadau ar sut i sgaffaldio'r broses hon a darparu gwahaniaethu:

| | Un pwynt ffocws | 2-3 pwynt ffocws | 4+ pwynt ffocws |
|---|---|---|---|
| Ffynonellau darllen CC1 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu | Adalw sawl ffaith o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau gyda gwybodaeth wedi'i thargedu |
| Ffynonellau darllen CC2 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol | Adalw sawl ffaith o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau sy'n cynnwys rhai manylion amherthnasol |
| Ffynonellau darllen CC3 | Darganfod ffeithiau o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol | Adalw sawl ffaith o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol | Adalw ffeithiau lluosog o ffynonellau sy'n cynnwys llawer o fanylion amherthnasol |

Unwaith y bydd y ffynonellau hyn wedi'u harchwilio, gellir coladu'r wybodaeth a gasglwyd. Mae hyn yn addas ar gyfer gwaith cyflwyno ar raddfa fach, gyda phob grŵp yn dod â'r wybodaeth y maent wedi dod o hyd iddi i grŵp arall neu i'r dosbarth, a'r canfyddiadau cyfunol wedyn yn cael eu hystyried fel un cyfanwaith. Hyd yn oed os yw pob dysgwr wedi cael y cyfle i ddarllen pob ffynhonnell, mae lle i adborth o hyd gan y bydd gwahanol bobl yn codi gwahanol bwyntiau, ac felly mae'n dod yn bwysig i'r dysgwyr bwyso a mesur gwerth pob sylw wrth iddo gael ei gyflwyno, i weld a oes angen iddo ddod yn rhan o'r hyn sy'n siapio'r casgliad terfynol ai peidio.

O hyn, gallwch wedyn ofyn y cwestiwn 'pa wybodaeth newydd sydd gennym yn awr?' O'r pwynt hwnnw, cewch eich arwain wedyn i ofyn 'pa wybodaeth sydd ar goll o hyd?' Mae hyn yn cyfeirio'r dysgwyr yn ôl at eu cwestiynau gwreiddiol ac eilaidd ac yr angen i gael gwybodaeth i greu darlun mor llawn â phosibl o fywyd Celtaidd yr Oes Haearn.

Gwnewch restr o'r bylchau sydd yn eu dealltwriaeth o Geltiaid yr Oes Haearn. Efallai na fydd llawer, ond bydd rhai meysydd o dystiolaeth ffeithiol o hyd nad ydynt ar gael trwy'r ffynonellau a astudiwyd. Trafod beth y gellid ei wneud yn awr i lenwi'r bylchau hynny, oherwydd maent bellach wedi edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Beth maen nhw'n meddwl y gallai haneswyr eraill o'u blaenau fod wedi'i wneud i lenwi'r bylchau?

Cyflwyno'r cysyniad o ddyfaliad gwybodus. Dyma le dyfalir ar sail tystiolaeth ddibynadwy a chywir i bontio'r bylchau rhwng y dystiolaeth. Er enghraifft mae genfa ceffyl a ddarganfuwyd yn Llyn Cerrig Bach, felly gallwn ddyfalu bod ganddynt geffylau. Roedd llafnau pladur, ond dim handlenni, felly gallwn ddyfalu bod yy handlenni wedi'u gwneud allan o rywbeth fel pren sydd wedi pydru dros amser, a bod y pladuriau'n cael eu defnyddio i dorri cnydau â choesynnau hir, fel gwenith, ceirch neu haidd. Gellid dangos y broses hon trwy ddiagramau llif ffurfiol os yw'n briodol.





# Llunio casgliadau

Drwy gydol y sesiynau blaenorol, mae'r dysgwyr wedi casglu llawer iawn o wybodaeth am Geltiaid yr Oes Haearn. Nawr yw'r amser i ddod â hyn at ei gilydd! Mae sut rydych chi'n gwneud hyn yn dibynnu ar eich dysgwyr a beth sy'n gweithio i chi, ond dyma rai awgrymiadau:

- Map meddwl dosbarth o wybodaeth
- Bwrdd padlet dosbarth i ddangos y wybodaeth
- Gwaith unigol fel diagramau corryn neu ddarluniau
- Wal wybodaeth gydweithredol lle mae pawb yn cyfrannu darnau o wybodaeth ysgrifenedig neu ddarluniadol i ofod gweladwy anferth

Yn seiliedig ar y casgliad hwn o wybodaeth, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r dysgwyr eu hystyried:

- Pwy oedd yn byw yn yr Oes Haearn?
- Beth wnaethon nhw?
- Sut beth oedd bywyd bob dydd?
- Pryd oedden nhw'n byw mewn hanes?
- Ble dewison nhw fyw?
- Pam dewison nhw fyw yno?
- Beth oedden nhw'n byw ynddo?
- Gyda phwy roedden nhw'n byw?
- Beth wnaethon nhw â'u dyddiau?
- Sut cawsant yr hyn yr oedd ei angen arnynt?

Gofynnwch i'r dysgwyr ffurfio atebion i un neu fwy o'r cwestiynau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth y maent wedi'i darganfod trwy eu hymchwiliadau hanesyddol. Efallai na fydd ganddynt atebion cyflawn i'r cwestiynau, ond dylai'r cyfuniad o wybodaeth gywir a dibynadwy o'r ffynonellau cynradd ac eilaidd a'u barn eu hunain ganiatáu iddynt lunio atebion credadwy. Bydd gan eich dysgwyr lawer o wybodaeth nawr, ac felly mae'n bryd gwneud rhywbeth gyda'r wybodaeth honno.



# Cyflwyno canfyddiadau

Pan fydd haneswyr wedi darganfod rhywbeth, dydyn nhw ddim yn cadw'r wybodaeth iddyn nhw eu hunain. Maen nhw eisiau rhannu'r wybodaeth gyda phobl eraill. Mae'r un peth yn wir am eich dysgwyr. Bellach mae ganddyn nhw gyfoeth o wybodaeth am Geltiaid yr Oes Haearn ac mae'n bryd iddyn nhw rannu'r wybodaeth honno.

Yn seiliedig ar yr hyn y mae wedi'i ddysgu, a'u diddordebau unigol eu hunain, tasg gloi eich dysgwr yw creu cyflwyniad o'u canfyddiadau am Geltiaid yr Oes Haearn. Gallai fod yn araith neu'n gyflwyniad tebyg i PowerPoint, ond gallai hefyd fod yn rhywbeth fel ffilm fer neu bodlediad. Rhaid ystyried y gynulleidfa hefyd, ac felly pa wybodaeth sydd angen ei chynnwys, a faint o fanylion ac esboniad sydd angen i chi ei roi i mewn. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar y cywair iaith sydd ei angen - ffurfiol, anffurfiol neu rywle yn y canol.

Isod mae rhai syniadau ar sut y gellid cyflwyno'r canfyddiadau, a rhai o'r ystyriaethau sydd eu hangen wrth greu cyflwyniad o'r fath.

| Math o gyflwyniad | Cynulleidfa | Cywair iaith | Sgiliau hanfodol | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Araith | Bl 5 a 6 | Lled-ffurfiol | Llais mawr<br>Gofod mawr | Sut gallwch chi ymgysylltu digon â'r gwrandäwr i'w fachu? |
| | Oedolion e.e. rhieni | Ffurfiol | Llais mawr<br>Gofod mawr | Sut gallwch chi ymgysylltu digon â'r gwrandäwr i'w fachu? |
| Araith wedi'i darlunio gan gyflwyniad PowerPoint | Bl 5 a 6 | Lled-ffurfiol | Sgiliau TG i greu cyflwyniad<br>Llais mawr<br>Gofod mawr | A oes technoleg addas i ddangos eich cyflwyniad yn glir? |
| | Oedolion e.e. rhieni | Lled-ffurfiol | ITSgiliau TG i greu cyflwyniad<br>Llais mawr<br>Gofod mawr | A oes technoleg addas i ddangos eich cyflwyniad yn glir? |
| Cyflwyniad PowerPoint gyda naratif | Iau na Bl 5 | Lled-ffurfiol | Sgiliau TG i greu cyflwyniad<br>Llais adrodd stori ddiddorol<br>Gallu i recordio eich llais yn glir | Sut fyddech chi'n rhannu eich cyflwyniad?<br>Sut gallwch chi ymgysylltu digon â'r gwrandäwr i'w fachu? |
| | Bl 5 a 6 | Lled-ffurfiol | Sgiliau TG i greu cyflwyniad<br>Llais adrodd stori ddiddorol<br>Gallu i recordio eich llais yn glir | Sut fyddech chi'n rhannu eich cyflwyniad?<br>Sut gallwch chi ymgysylltu digon â'r gwrandäwr i'w fachu? |

| Math o gyflwyniad | Cynulleidfa | Cywair iaith | Sgiliau hanfodol | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwyniad PowerPoint gyda naratif | Oedolion e.e. rhieni | Ffurfiol | Sgiliau TG i greu cyflwyniad<br>Llais adrodd stori ddiddorol<br>Gallu i recordio eich llais yn glir | Sut fyddech chi'n rhannu eich cyflwyniad?<br>Sut gallwch chi ymgysylltu digon â'r gwrandäwr i'w fachu? |
| Ffilm fer | Iau na Bl 5 | Lled-ffurfiol | Sgiliau TG i recordio a golygu'r ffilm<br>Lleoliadau/props i greu ffilm<br>Llais adrodd stori ddiddorol os oes angen naratif | Sut fyddech chi'n rhannu eich ffilm?<br>A allwch chi gwblhau darn o waith o ansawdd digon da o fewn yr amserlen sydd gennych chi i fod yn hapus ag ef? |
| | Bl 5 a 6 | Lled-ffurfiol | Sgiliau TG i recordio a golygu'r ffilm<br>Lleoliadau/props i greu ffilm<br>Llais adrodd stori ddiddorol os oes angen naratif | Sut fyddech chi'n rhannu eich ffilm?<br>A allwch chi gwblhau darn o waith o ansawdd digon da o fewn yr amserlen sydd gennych chi i fod yn hapus ag ef? |
| | Oedolion e.e. rhieni | Ffurfiol | Sgiliau TG i recordio a golygu'r ffilm<br>Lleoliadau/props i greu ffilm<br>Llais adrodd stori ddiddorol os oes angen naratif | Sut fyddech chi'n rhannu eich ffilm?<br>A allwch chi gwblhau darn o waith o ansawdd digon da o fewn yr amserlen sydd gennych chi i fod yn hapus ag ef? |



| Math o gyflwyniad | Cynulleidfa | Cywair iaith | Sgiliau hanfodol | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Podlediad | Bl 5 ac uwch (plant) | Lled-ffurfiol | Sgiliau TG i recordio a golygu podlediad<br>Clais siarad clir iawn<br>Offer recordio o ansawdd da<br>Lleoliadau da ar gyfer recordio<br>Llais adrodd stori ddiddorol<br>Digon o bobl i gyfrannu at y lleisiau yn y podlediad | Sut fyddech chi'n rhannu eich podlediad?<br>A allwch chi gwblhau darn o waith o ansawdd digon da o fewn yr amserlen sydd gennych chi i fod yn hapus ag ef? |
| | Oedolion | Ffurfiol | Sgiliau TG i recordio a golygu podlediad<br>Clais siarad clir iawn<br>Offer recordio o ansawdd da<br>Lleoliadau da ar gyfer recordio<br>Llais adrodd stori ddiddorol<br>Digon o bobl i gyfrannu at y lleisiau yn y podlediad | Sut fyddech chi'n rhannu eich podlediad?<br>A allwch chi gwblhau darn o waith o ansawdd digon da o fewn yr amserlen sydd gennych chi i fod yn hapus ag ef? |



Fel yr athro, eich rôl nawr yw cefnogi'r dysgwyr wrth iddynt greu eu cyflwyniad. Bydd angen i chi eu hatgoffa bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, ac er y gallai fod angen i chi eu harwain tuag at benderfyniad ynghylch sut i gyflwyno eu canfyddiadau, eu dewis hwy ddylai fod yn y diwedd. Gallai'r cyfrwng terfynol fod yn ddewis dosbarth cyfan, neu'n cael ei wneud mewn grwpiau, gyda chyfryngau lluosog yn cael eu defnyddio ar draws y garfan gyfan. Gallech hyd yn oed greu cwmni darlledu at ddiben y dasg hon, gyda hysbysebion swyddi a chyfweliadau!

Yn amlwg, gyda'r gwahanol opsiynau cyflwyno, mae pwysoliadau ychydig yn wahanol yng nghanlyniadau'r cwmpas sgiliau ar gyfer y rhan hon o'r gwaith, yn enwedig o ran LLC. Mae dysgwyr sy'n sefyll o flaen cynulleidfa fyw ac yn siarad yn uniongyrchol â nhw yn defnyddio sgiliau gwahanol i'r rhai sy'n adrodd ffilm. Fodd bynnag, yr ystyriaeth bwysig yma yw bod y sgiliau cyfathrebu'n cael eu defnyddio'n briodol ar gyfer y cyd-destun y mae eu hangen. Bydd pob dysgwr yn defnyddio sgiliau cyfoedion i gyfoedion i weithio mewn timau i ryngweithio o fewn grŵp bach, felly bydd rhai sgiliau o reidrwydd yn rhai generig.

Mae'r gwaith cyflwyno terfynol hwn yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddefnyddio mwy nag un iaith yn eu cyflwyniad. Er enghraifft, efallai y bydd gwneuthurwyr ffilm am gynnwys isdeitlau mewn ail iaith, neu gynnwys sgrin yn y sgrin i alluogi defnyddio BSL ar yr un pryd. Efallai y bydd eraill am gynnwys esboniad o rai termau mewn iaith arall fel rhan o'u cyflwyniad. Eto, gall hyn fanteisio ar gryfderau a demograffeg y grwpiau.











| | |
|---|---|
| Arteffact | gwrthrych sydd wedi'i ddarganfod mewn lleoliad hanesyddol, yn aml un sydd wedi bod yn gudd ers amser maith |
| Barn | eich meddyliau a'ch syniadau ar rywbeth |
| Casgliad | dod i benderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i chi |
| Coladu | dod â gwybodaeth ynghyd mewn ffordd drefnus |
| Cwestiynu [ffynhonnell] | defnyddio ffynhonnell i ddod o hyd i wybodaeth am rywbeth arall trwy ddarllen/edrych/cyffwrdd ac ati er mwyn helpu i ddod i gasgliadau neu eu datblygu |
| Cywir | rhywbeth sy'n gywir yn ei wybodaeth i'r manylyn lleiaf |
| Darganfyddiadau | arteffactau sydd wedi'u cuddio ers amser maith ac a ddarganfuwyd bryd hynny |
| Dibynadwy | gwybodaeth y gwyddoch sy'n wir oherwydd eich bod yn gwybod o ble y daeth |
| Ffynhonnell | tystiolaeth am rywbeth |
| Ffynhonnell eilaidd | ffynhonnell sy'n seiliedig ar ffynhonnell wreiddiol e.e. atgynhyrchiad o arteffact, argraff arlunydd o rywbeth, stori a ysgrifennwyd flynyddoedd ar ôl y digwyddiad |
| Ffynhonnell wreiddiol | ffynhonnell sy'n dod o'r cyfnod mewn hanes y mae'n cyfeirio ato e.e. darganfyddiad neu arteffact, adeilad, cerfiad |
| Holi | gofyn llawer o gwestiynau i rywun neu am rywbeth i gael gwybod amdano |
| Oes Haearn | cyfnod o amser mewn hanes o tua 800 CC hyd pan gyrhaeddodd y Rhufeiniaid Brydain |
| Safle | lleoliad o arwyddocâd neu bwysigrwydd hanesyddol |
| Tystiolaeth | gwybodaeth y gellir ei defnyddio i greu darlun mwy |
| Unochrog | gwybodaeth sydd wedi'i hysgrifennu o un safbwynt ac felly efallai nad yw'n gwbl gywir nac yn ddibynadwy |
| Ymchwiliad | y broses o edrych ar wybodaeth i ddod o hyd i ateb i gwestiwn |

Cadw